Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Adroddiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil 2019-2020

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Adroddiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil 2019-2020

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

## Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi llofnodi'r **Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil** ac, o ganlyniad, mae wedi ymrwymo'n llwyr i'r egwyddorion a'r syniadau a nodir yn y fframwaith hwn. Y ddogfen hon yw datganiad uniondeb ymchwil blynyddol y Brifysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-2021.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ymchwil a wnaed gan staff academaidd a chan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Caiff unrhyw ymchwil a wneir gan fyfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir ei rheoleiddio o dan reoliadau'r Brifysgol ar gyfer cyrsiau a addysgir, ac a weinyddir gan y Swyddfa Academaidd drwy'r Gweithdrefnau Ymarfer Annheg.

Mae'r Brifysgol yn credu bod adolygu a chymeradwyo moeseg ymchwil yn bwysig am y rhesymau canlynol:

- Gwella ansawdd ac uniondeb ymchwil;
- Diogelu hawliau a lles unrhyw un sy'n cymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil a lleihau'r risg o anghysur corfforol a meddyliol, niwed a pherygl o weithdrefnau ymchwil;
- Diogelu lles ymchwilwyr a'u hawl i gynnal ymchwiliadau cyfreithlon;
- Lleihau'r potensial ar gyfer gwneud honiadau o esgeulustod yn erbyn y Brifysgol, ei hymchwilwyr ac unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n cydweithio;
- Sicrhau enw da'r Brifysgol am yr ymchwil y mae'n ei chynnal ac yn ei noddi;
- Sicrhau bod ymchwil yn cael ei chynnal yn unol â fframweithiau, rhwymedigaethau a safonau moesegol, cyfreithiol a phroffesiynol priodol;
- Cefnogi amgylchedd ymchwil sy'n seiliedig ar ddiwylliant o onestrwydd sy'n seiliedig ar lywodraethu da, arfer gorau a chefnogaeth i ddatblygu ymchwilwyr;
- Sicrhau bod prosesau tryloyw, cadarn a theg i ymdrin â honiadau o gamymddwyn ymchwil pe baent yn codi;
- Cydweithio â sefydliadau eraill fel y bo'n ofynnol o bryd i'w gilydd i gryfhau uniondeb ymchwil ac i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac yn agored.

Mae'r gweithdrefnau a'r chanllawiau a amlinellir yng Nghod Ymarfer Uniondeb a Moeseg Ymchwil yn berthnasol i'r holl staff academaidd a gweinyddol, y rhai sydd â swyddi anrhydeddus yn y Brifysgol, a'r holl fyfyrwyr sy'n cynnal prosiectau ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig yn rhan o gyrsiau israddedig, ôl-raddedig a byr a rhaglenni ymchwil lle mae myfyrwyr wedi'u cofrestru, a/neu'n cael eu goruchwylio gan staff y Brifysgol. Yr eithriad fydd achosion lle mae'r Prif Ymchwilydd wedi'i gofrestru mewn mannau eraill ar yr amod bod y prosiect ymchwil wedi'i gymeradwyo gan bwyllgor moeseg cyfatebol yn dilyn lefel gymaradwy o adolygiad moeseg.

## Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil (REC) yn is-bwyllgor i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol gydag aelodau o bob un o Sefydliadau'r Brifysgol a champws Llundain Y Drindod Dewi Sant, ynghyd â chynrychiolwyr o Bwyllgor Graddau Ymchwil a Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol. Hwn yw ei gylch gorchwyl:

1. Rhoi cyngor ac arweiniad ar faterion moesegol sefydledig sy'n esblygu a chyfrannu at ymwybyddiaeth foesegol a hyfforddiant;

2. Sicrhau bod gweithdrefnau'r Sefydliad ar gyfer ymdrin â materion moesegol a godwyd o ganlyniad i ymchwil staff neu fyfyrwyr yn briodol, ac i fonitro eu gweithrediad effeithiol a chyson;
3. Ymgynghori ag unrhyw dystiolaeth a barn y mae'n eu hystyried yn briodol i sicrhau bod penderfyniadau sy'n ymwneud â chymeradwyo agweddau moesegol ar ddulliau ymchwil yn seiliedig ar resymau moesegol yn unig;
4. Rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig i holl brosiectau ymchwil perthnasol y Brifysgol neu gynigion rhaglen gradd ymchwil gydag amodau neu ofynion pan fo’n briodol, neu roi gwrthodiad ysgrifenedig gyda chyfiawnhad;
5. Derbyn adroddiadau rheolaidd gan Athrofeydd ar faterion moesegol a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion moesegol;
6. Ystyried a darparu ymatebion ffurfiol i achosion y cyfeirir atynt mewn ymateb i geisiadau gan Athrofeydd;
7. Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Ymchwil a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil ar y camau a gymerwyd a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Cefnogir y Pwyllgor yn ei rôl gan y Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig a'r Swyddfa Academaidd. Mae'n derbyn adroddiadau gan yr Athrofeydd unigol a grwpiau ymchwil annibynnol oddi mewn i’r Brifysgol.

Mae'n ofynnol i'r holl staff academaidd ac ymchwilwyr ôl-raddedig gyflwyno ffurflen foeseg i'w hadolygu gan y Pwyllgor ar ddechrau eu prosiect ymchwil. Ni chaiff unrhyw waith casglu data ddechrau nes bod yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2019-2020 craffodd y Pwyllgor 236 ar y ffurflenni moeseg (215 gan fyfyrwyr ôl-raddedig, 21 gan staff academaidd), cynnydd o 58% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Camau Gweithredu a Gweithgareddau**

Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn chwarae rhan fawr wrth arwain y gwaith o ddarparu cymorth a hyfforddiant ym maes moeseg. Mae Aelodau'n darparu pwynt cyswllt ar gyfer eu Hathrofeydd fel y gall yr holl ymchwilwyr, staff neu fyfyrwyr drafod y materion moesegol sy'n gysylltiedig â'u gwaith gyda rhywun sy'n deall cyd-destun moesegol eu maes. Mae'r dull cyd-destunol hwn hefyd yn ei gwneud yn bosibl darparu amrywiaeth o seminarau ar lefel israddedig ac ôl-raddedig sy'n annog staff a myfyrwyr i ymgysylltu â materion moesegol y tu allan i gyd-destun uniongyrchol eu hymchwil.

Cynhelir rhaglenni seminarau hefyd sy'n canolbwyntio ar faterion moesegol a phrosesau'r Brifysgol ar gyfer pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig, staff sy’n weithgar ym maes ymchwil a goruchwylwyr PhD. Cefnogir y rhain gan adnoddau sydd ar gael ar dudalennau gwe ymchwil y Brifysgol a'u cysylltu â Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr y Brifysgol a'r Ysgol Haf Ymchwil Ôl-raddedig flynyddol. Mae'r addysgu hwn ar onestrwydd ymchwil ac ymddygiad moesegol hefyd wedi'i wreiddio yn y cwricwlwm israddedig, yn unol â gofynion cyrff achredu allanol megis Cymdeithas Seicolegol Prydain a Chymdeithas Gyfrifiadureg Prydain.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae aelodau’r Pwyllgor Moeseg Ymchwil wedi bod yn rhan o gynhadledd addysgu NEXUS y Brifysgol, ac wedi cyflwyno nifer o bapurau ar addysgeg datblygu meddwl moesegol mewn cynulleidfaoedd israddedig ac ôl-raddedig.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, oherwydd ymddangosiad Covid-19 roedd gofyn i lawer o ymchwilwyr ailystyried eu dulliau casglu data i weithredu camau cadw pellter cymdeithasol. Cefnogodd y Pwyllgor hyn drwy ddarparu gwybodaeth am ddewisiadau amgen i gyfweliadau a holiaduron wyneb yn wyneb, ynghyd â gwybodaeth am sut i sicrhau bod y newidiadau hyn yn parhau yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. O’r herwydd roedd rhaid i sawl ymchwilydd

gynnal ail adolygiad moesegol ar gyfer eu dulliau newydd o gasglu data ac mae llawer o ymchwilwyr ar ddechrau eu prosiect wedi gofalu caniatáu ar gyfer y dull newydd hwn.

Rhagwelir y bydd y Pwyllgor yn cydlynu cyfleoedd hyfforddi pellach i ymchwilwyr a goruchwylwyr ymchwil yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021 gan ganolbwyntio ar reoli data a diogelu data mewn byd o gasglu data ar-lein. Bydd hyn yn digwydd ochr yn ochr ag adolygiad o'r broses adolygu moesegol bresennol i sicrhau bod gan bob ymchwilydd ddealltwriaeth o'r meysydd moeseg ddigidol sy'n berthnasol i'w meysydd ymchwil.

**Gweithdrefnau'r Brifysgol**

Mae gan y Brifysgol nifer o weithdrefnau a pholisïau sy'n cefnogi uniondeb ymchwil ac sy'n darparu dulliau effeithiol i staff a myfyrwyr roi gwybod am unrhyw bryderon neu ymholiadau. Ymchwilir i unrhyw adroddiadau o'r fath mewn modd teg a thryloyw.

Polisi Camymddwyn Academaidd

Polisi Addasrwydd i Ymarfer

Polisi Rheoli Data Ymchwil

Polisi Eiddo Deallusol Myfyrwyr

Polisi Eiddo Deallusol Staff

Polisi Chwythu'r Chwiban

Caiff y polisïau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

**Camymddwyn Ymchwil**

Ymdrinnir ag unrhyw achosion o gamymddwyn ymchwil gan y Brifysgol o dan ddarpariaeth 7c yn ordnans y Brifysgol.

c) Ymchwiliadau i Honiadau o Gamymddwyn Ymchwil

(i) Caiff ymchwiliadau i honiadau o gamymddwyn ymchwil eu cynnal yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol, fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(ii) Gall honiadau o gamymddwyn ymchwil gael eu dwyn i sylw'r Brifysgol yn fewnol neu'n allanol gan unigolyn neu gan sefydliad. Beth bynnag fo ffynhonnell yr honiad, bydd y Brifysgol yn ymdrechu i sicrhau y caiff cyfiawnder ei wneud, a hefyd y gwelir ei fod yn cael ei wneud, i'r partïon sy'n cwyno a'r rhai a gyhuddir. Ymchwilir i gwynion dilys ag uniondeb a chyfrinachedd a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr ymchwiliad yn mynd yn ei flaen heb amharu ar yr achwynydd na'r cyhuddedig. Mae gan staff hawl i ddisgwyl y bydd eu gwaith ymchwil yn cael ei ystyried yn onest, nes y dangosir fel arall, ac y byddant yn cael eu diogelu rhag cwynion di-sail, ofer, drygionus neu faleisus; yr egwyddor hon fydd yn llywio gweithdrefnau'r Brifysgol.

(iii) Bydd y Brifysgol yn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod trafodion unrhyw ymchwiliad yn cael eu trin yn gyfrinachol. Fodd bynnag, pan fydd gwrthdaro rhwng yr angen am gyfrinachedd a'r angen i geisio'r gwirionedd, yr olaf fydd yn cael y flaenoriaeth.

Ymdrinnir â chamymddwyn ymchwil o fewn prosiectau ymchwil ôl-raddedig drwy Bolisi Camymddwyn Academaidd y Brifysgol.

Mae polisi a phroses fanylach ar gyfer ymdrin â chamymddwyn ymchwil yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a disgwylir ei gyhoeddi yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021.

Ni ddaeth unrhyw adroddiadau am gamymddwyn ymchwil i law yn y Brifysgol ym mlwyddyn academaidd 2019-2020.

**Manylion Cyswllt**

Dylid cyfeirio pob ymholiad sy'n ymwneud â'r datganiad blynyddol hwn neu unrhyw weithgareddau a gynhelir gan y Brifysgol mewn perthynas â'r Concordat at un o'r cysylltiadau canlynol:

- Yr Athro Cysylltiol Nik Whitehead – Cyd-gadeirydd, y Pwyllgor Moeseg Ymchwil
- Dr Stuart Jones – Cyd-gadeirydd, Pwyllgor Moeseg Ymchwil
- Dr Kyle Erickson – Cyfarwyddwr Gwella Academaidd, Profiad Academaidd

Os oes gan unrhyw un sy'n darllen y ddogfen hon bryderon ynghylch ymddygiad un o ymchwilwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, yn gyntaf dylent ymgynghori â’r polisi neu'r weithdrefn briodol ar waith. Os nad ydych yn siŵr pa bolisi neu weithdrefn sy'n berthnasol yn eich achos chi, neu os ydych yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil, cysylltwch â'r tîm Moeseg Ymchwil.